**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 13 Rhagfyr 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | M Durke |
| K M Griffiths | Y V Jardine | W G Lewis |
| D W W Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Chris Francis | Prif Swyddog Gwasanaethau Comisiynu a Gofal |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): S M Jones a/ac E T Kirchner
Hefyd yn Bresennol: E J King

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datgeliadau o fuddiannau – Mike Durke.

2 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Dan yr adran materion sy'n codi cododd y Cynullydd ymholiad ynghylch data ar gynnydd plant sy'n derbyn gofal mewn addysg o'u cymharu ag eraill. Ymatebodd swyddogion fod y system y byddai Llywodraeth Cymru fel arfer yn ei defnyddio i ddarparu'r data wedi'i hoedi oherwydd y pandemig ac nad oedd gan yr Adran Addysg yr adnoddau i wneud hyn â llaw ar hyn o bryd mewn ffordd y gellid ei rhannu er mwyn gweld y gymhariaeth. Fodd bynnag, ar gyfer plant unigol, byddai hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r adolygiadau statudol plant sy'n derbyn gofal. Mae'r adran yn gobeithio gallu darparu rhywfaint o ddadansoddiad yn y flwyddyn newydd a bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r Panel.

## 4 Cwestiynau Gan y Cyhoedd

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Adroddiad uchafbwyntiau Perfformiad a'r Cynllun Staffio Brys

Roedd Julie Davies, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn bresennol i friffio'r Panel ar yr eitem hon.

Pwyntiau i'w trafod:

- Mae'r Panel yn derbyn adroddiad monitro perfformiad byrrach ar hyn o bryd. Rydym yn gobeithio ailddechrau adrodd yn llawn am berfformiad o fis Chwefror 2022 ymlaen.
- Canlyniad yr arolygiad o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i gael ei gyflwyno gerbron y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Cododd y Panel yr achos trasig diweddar yn Solihull a gofynnodd i swyddogion roi syniad o'r hyn a aeth o'i le. Gwnaethant hefyd geisio sicrwydd na fyddai hyn yn digwydd i blant yn ardal yr awdurdod lleol hwn.
- Roedd gan y Gyfarwyddiaeth bryderon am allu recriwtio gweithwyr cymdeithasol am ddau i dri mis. Yn y cyfnod hwn, maent wedi tynnu staff o rannau eraill o'r gwasanaeth i gynorthwyo a chefnogi. Cynhaliwyd cyfarfodydd diogelu wythnosol gydag Addysg, Iechyd a'r Heddlu i sicrhau eu bod yn cadw mewn cysylltiad â phlant y maent yn poeni fwyaf amdanynt. Dyma un o'r heriau a godwyd yn yr achos yn Solihull – cadw mewn cysylltiad â phlant y maent yn poeni fwyaf amdanynt. Mae swyddogion yn Abertawe yn credu eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu.
- Gofynnodd y Panel am yr anhawster wrth recriwtio i'r Gwasanaeth. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi siarad â Llywodraeth Cymru am strategaethau tymor canolig a hirdymor. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn mynd ar drywydd 'datblygu eu hunain'. Mae'r Awdurdod yn cryfhau cysylltiadau â phrifysgolion a staff ategol i ddilyn cymwysterau. Yn ddiweddar, efallai bod rhai o'r uwch-weithwyr cymdeithasol yn ymdrin â llwythi achosion uwch nag arfer. Fodd bynnag, oherwydd bod swyddi cefnogi teuluoedd ychwanegol wedi'u penodi, dylai hyn wneud gwahaniaeth yn y flwyddyn newydd gan y gallant gynnal rhai o'r achosion anstatudol.
- Gofynnodd y Panel am ddadansoddiad o gyfanswm tîm staff y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Mae'r Panel yn teimlo bod angen pobl â sgiliau, gwybodaeth a doniau ar y gwasanaeth a dylent fod yn annog y bobl hyn i fod mewn rolau allweddol ac nid yn chwilio am bobl â graddau yn unig. Mae swyddogion yn edrych ar sut y gallant gefnogi'r unigolion hyn ar draws y gwasanaeth i ddatblygu eu gyrfaoedd.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn gwerthfawrogi'r holl a'u cyfraniadau. Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gannoedd o staff â chymwysterau gwahanol a nhw yw mwyafrif y gweithlu ond mae rhai gofynion statudol ynghylch cael gweithwyr cymdeithasol cymwysedig mewn rolau penodol ac ar gyfer y rolau hyn mae prinder gweithwyr cymdeithasol.
- Gofynnodd y panel am ychwanegiadau'r farchnad ac a ydynt i'w cynnig i weithwyr cymdeithasol ac uwch-weithwyr cymdeithasol yn y tri thîm ardal yn

unig. Cadarnhaodd swyddogion nad oes unrhyw gymhellion ariannol eraill wedi'u cynllunio ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ar hyn o bryd ond mae ffocws mawr ar les.

- Dywedodd y Cynullydd fod y cynnydd gyda'r adran dros y 10 mlynedd diwethaf wedi bod yn rhyfeddol ac mae'n rhoi hyder iddo fod y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn dod o gefndir diogelu.

Camau Gweithredu:

- Darparu gwybodaeth am ddadansoddiad o weithlu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i'r Panel.

## 6 Er gwybodaeth

Nododd y Panel eitemau ar y rhaglen waith ar gyfer gweddill y flwyddyn ddinesig hon.

## 7 Gwahardd y Cyhoedd

Pleidleisiodd y Panel a chytunodd i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod eitem 9, am ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig.
Paragraff 13 yw'r paragraff perthnasol ym mhrawf budd y cyhoedd.

## 8 Ty Nant - Diweddariad ar y cynnydd gyda'r cynllun gweithredu

Trafododd y Panel yr eitem mewn sesiwn gaeedig.

Daeth Chris Francis, Prif Swyddog y Gwasanaethau Comisiynu a Gofal, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel am yr eitem hon.

Pwyntiau i'w trafod:

- Cadarnhaodd swyddogion eu bod am fynd yn llawer pellach yn y dyfodol na'r hyn oedd yn y cynllun gweithredu ac y bydd nifer o wiriadau ac adolygiadau bach yn cael eu cynnal i wirio effaith.

- Amlygodd yr arolygiad nifer o feysydd lle'r oedd y broses yn gadarnhaol gan gynnwys rheolaeth.

- Roedd y staff o'r farn bod yr arolygiad yn rhoi adlewyrchiad annheg o'u harferion mewn rhai meysydd gan fod cyfnodau o reoli argyfwng drwy gydol y cyfnod hwnnw oherwydd y pandemig.

- Roedd y staff yn teimlo, o ran sicrhau ansawdd, fod enghreifftiau gwych o arfer da, ond nid oedd y rhain wedi'u cofnodi yn unman. Felly, pan gynhaliwyd yr arolygiad, ni allai'r arolygwyr weld beth oedd wedi digwydd i gyflawni'r canlyniadau.

- Soniwyd am ddiffygion hyfforddi yn yr adroddiad arolygu. Roedd y staff yn teimlo bod hyn yn annheg gan fod eu harfer yn cael ei ategu gan hyfforddiant

da iawn ond gan nad oedd wedi'i gynnwys yn y matrics hyfforddi, nid oedd yn bosib i arolygwyr nodi hyn yn hawdd.

- Holodd y panel a oedd y dirprwy reolwr yn dal i ymgymryd â rôl waith yn ogystal â rheoli.  Cadarnhaodd swyddogion fod yr aelod hwn o staff yn y strwythur newydd 'oddi ar rota' wrth ymgymryd â'r swyddogaeth reoli.

- Dywedodd y panel, os oes unrhyw beth y gallant ei wneud fel panel craffu, o ran yr elfen perfformiad, i helpu swyddogion gyda'u gwaith y dylent roi gwybod iddynt.

- Cadarnhaodd swyddogion y bydd adroddiad blynyddol yn cael ei lunio ym mis Ebrill 2022 a gallai fynd gerbron y Panel pe baent yn dymuno edrych ar y canfyddiadau.

- Roedd gan y Panel ddiddordeb mewn clywed unrhyw syniadau i weld sut yn union mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio. Ymatebodd swyddogion y gallent feddwl am gynhyrchu fideo 'Diwrnod ym mywyd...' o blant yn Nhŷ Nant, am ryw adeg yn y dyfodol.

- Dywedodd swyddogion eu bod wedi bod yn siarad â'r adran addysg am waharddiadau ysgol o ran plant sy'n derbyn gofal a gwahanol ffyrdd o fynd i'r afael â hyn.  Hoffent gyflwyno adroddiad ar hyn i'r Panel yn y dyfodol.

- Roedd y panel yn falch o weld llawer o ymdrech yn cael ei roi wrth lunio'r adroddiad a dderbyniwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'u bod yn mynd i'r afael â'r materion.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.30 pm